



18 Ionawr 2018

Teitl y Papur	Adroddiad Perfformiad 2017–18 Adroddiad Cyfnod Dau (1 Ebrill 2017 – 30 Tachwedd 2017)
Cyfeirnod y Papur:	NRW B B 1.18
Paratowyd y Papur gan:	Mark Jones
Cyflwynwyd y Papur gan	Kevin Ingram

Diben y Papur:	Gwaith Craffu
Argymhelliad:	<p>Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer Cyfnod Dau 2017/18 cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru, gan ystyried y canlynol yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Digonedd pob esboniad ategol ar gyfer pob mesur, a'r ffordd rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n dangos bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy• Y mesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gynigir i fynd i'r afael â risgiau i gyflawni'r gwaith hwn• A ydych yn glir, o ran parodrwydd i gymryd risgiau, fod y camau gweithredu a'r mesurau lliniaru yn yr adroddiad yn gyson â pharodrwydd y Bwrdd i gymryd risgiau

Effaith:	<p>Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:</p> <ul style="list-style-type: none">• Edrych ar y tymor hir – Mae'r dangosyddion o fewn yr Adroddiad Perfformiad yn adeiladu darlun tymor hir o newid.• Gweithredu mewn ffordd integredig – Mae'r Adroddiad Perfformiad yn rhychwantu ehangder ein gwaith.• Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth – Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd.• Gweithio mewn ffordd gydweithredol – Mae nifer o'n dangosyddion ni'n olrhain newid sy'n gofyn am fewnbwn gan nifer o bartneriaid.• Atal problemau rhag codi – Mae nodi problemau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar trwy'r Adroddiad Perfformiad yn caniatáu pennu cynlluniau a blaenoriaethau er mwyn cyflawni'r effeithiau gorau.
-----------------	---

Mater

1. Mae Cyfnod Dau Adrodd Perfformiad Corfforaethol 2017–18, ar gyfer 1 Ebrill – 30 Tachwedd 2017, bellach wedi cael ei gwblhau. Mae'r Adroddiad Perfformiad wedi cael ei baratoi i'r Bwrdd graffu arno cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae adrodd ar berfformiad yn cael ei gynnal bob pedwar mis.

Cefndir

2. Mae'r Adroddiad Perfformiad Corfforaethol yn un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein gwaith cyflawni ac ategu cynllunio strategol.
3. Datblygwyd yr Adroddiad Perfformiad (Atodiad 1) fel rhan o'r broses i baratoi Cynllun Busnes 2017–18 a Chynllun Corfforaethol 2017–22 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol ac Is-grŵp Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd. Mae'n cynnwys:
 - Dangosfwrdd sy'n rhoi trosolwg un dudalen o uchafbwyntiau perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 2017–18.
 - Testun ar gyfer pob mesur dangosfwrdd sy'n canolbwyntio ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni, a oes unrhyw broblemau/risgiau nodedig a beth yw eu goblygiadau, a'r hyn rydym yn mynd i'w wneud nesaf.
 - Testun yn egluro sut, ar draws y set o fesurau dangosfwrdd, rydym yn cymhwysu naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
4. Dyma'r ail adroddiad ar gyfer ein Cynllun Busnes cyfredol (2017–18). Hwn yw'r ail adroddiad hefyd ar gyfer cyfnod newydd y Cynllun Corfforaethol (2017–22). Bydd ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ein set ddiweddaraf o Ddangosyddion Corfforaethol. Adroddir am y rhain ar adegau priodol yn hwyrach yn y flwyddyn, ac yn bennaf er mwyn ategu'r cynllunio strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf a'n harolygiad o'n Hamcanion Llesiant ni.

Asesiad

5. Ar gyfer y dangosfwrdd, yr ail adroddiad ar gyfer y Cynllun Busnes cyfredol (2017–18), dangosir ein perfformiad isod ar bwys y safle y gwnaethom ei adrodd ar gyfer Cyfnod Un.

	Cyfnod 1 1 Ebrill 2017 – 31 Gorffennaf 2017	Cyfnod 2 1 Ebrill 2017 – 30 Tachwedd 2017
'Gwyrdd'	24	22
'Oren'	7	10
'Coch'	0	1
I'w gadarnhau	3	1
Cyfanswm	34	34

6. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer Cyfnod Dau 2017–18, gan nodi bod problemau mewn perthynas â chapasiti ac adnoddau wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf, gan arwain at berfformiad cyffredinol lle mae llai o adroddiadau gwyrdd, a rhagor o adroddiadau oren/coch. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y canlynol yn benodol:
- Digonedd pob esboniad ategol ar gyfer pob mesur a'r ffordd rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n dangos bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy
 - Y mesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gynigir i fynd i'r afael â risgiau i gyflawni'r gwaith hwn
 - A ydych yn glir, o ran parodrwydd i gymryd risgiau, fod y camau gweithredu a'r mesurau lliniaru'n gyson â pharodrwydd y Bwrdd i gymryd risgiau.
7. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r eitemau coch/oren canlynol o'r Adroddiad Perfformiad:
- Creu 230 hectar o gynefin erbyn mis Mawrth 2018 (Coch) – Yn y cyfarfod Bwrdd diwethaf gwnaethom adrodd nad ydym bellach yn disgwyl creu'r 230 hectar gwreiddiol a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn hon. Mae'r mesur bellach wedi cael ei adolygu (yn unol â cham gweithredu cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Medi) i ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y sefydliad. Roedd y gwaith a nodwyd yn cynnwys:
 - Cyngor ar gyfer Prosiect (£1 miliwn) a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd yn cael ei arwain gan Cadwch Gymru'n Daclus a Coed Cadw i greu ac adfer gwrychoedd.
 - Gofynion trwyddedau rhywogaethau – e.e. trwyddedau datblygu, mesurau cydadferol ar gyfer colli cynefinoedd pathewod, creu mannau gaeafu ystlumod.
 - Cyngor ar gyfer ymgeiswyr Glastir.
 Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull ar gyfer cyflawni ac adrodd am y targed adfer o 15% gan Gofensiwn Aichi ar Amrywiaeth Biolegol. Er mwyn adrodd am gyfraniad Cymru at y targed hwn mae angen inni sefydlu proses ar gyfer casglu data perthnasol.
 - Bod ein cynllun sefydliadol newydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2018 (oren) – Rydym wedi cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r cynllun strwythurol, ond mae angen gwaith i ddod ag ef yn ôl o fewn cyfyngiadau adnoddau. I'w gwblhau erbyn y bwrdd rhaglen nesaf ym mis Ionawr 2018. Mae ymgynghorwyr adnoddau dynol wedi cael eu cyflogi i gyflawni Proffiliau Rôl Generig wedi'u hadnewyddu. Cynhelir sesiynau briffio staff ym mis Ionawr 2018.
 - Cwblhau Datganiadau Ardal erbyn mis Rhagfyr 2019 (Oren) – Bu i amserlen y camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y mesur hwn newid rhywfaint tra oeddem yn aros i Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi. Er enghraifft, roeddem yn gobeithio bod wedi rhannu'r dystiolaeth genedlaethol mewn perthynas ag ecosystemau rhwng y saith ardal, gan gynnwys naratifau ar bob un o'r mannau hynny. Rydym hefyd wedi profi heriau wrth ddatblygu astudiaethau achos sy'n cyfleu'r negeseuon cywir, ac rydym wedi penderfynu ailbwrpasu'r gwaith hwn er mwyn iddo ategu'r broses o sefydlu dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn well. Mae gennym fesurau lliniaru ar waith a fydd yn dod â'r mesur hwn yn ôl i statws gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Sicrhau bod 99% o asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol risg uchel yn eu cyflwr targed (Oren) – Mae 97.5% o asedau o fewn systemau perygl llifogydd risg uchel a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cyflwr targed.
 - Gweithredu ein Strategaeth Pobl a Thimau (Oren) – Cafodd y dull newydd ar gyfer cynnal ein harolwg pobl ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth ym mis Medi 2017. Mae blaenoriaethau eraill wedi arwain at symud yr amser ar gyfer lansio'r arolwg pobl i fis Ionawr/Chwefror 2018.
 - Cyflawni ein Rhaglen Ffocws ar Gwsmeriaid (Oren) – Oren o ganlyniad i ailamserlennu'r arolygon cwsmeriaid, tra bo elfennau eraill o'r mesur hwn yn parhau i fod ar darged.
 - Ansawdd Cydweithredu (mesur i'w gadarnhau) (Oren) – Cafodd arolygon cwsmeriaid mewnol ac allanol eu symud o fis Rhagfyr i fis Mawrth, oherwydd eu bod yn gwrthdaro â'r gwaith o weithredu'r broses Gwerthuso Swyddi. Bydd gwaith cydweithredu yn cael ei ddatblygu yn dilyn yr arolygon.
 - Ailstocio 1,000 hectar erbyn mis Mawrth 2018 (Oren) – Mae 409.4 hectar wedi cael eu hailstocio, y mae 257.8 hectar ohonynt yn llennyrch wedi'u llwyrwympo oherwydd haint *phytophthora ramorum*. Ar hyn o bryd mae'r banc tir tua 5,270 hectar (sefyllfa a fydd yn cael ei hailasesu ym mis Mehefin 2018).
 - Mae 80% o gamau gweithredu ar safleoedd dynodedig wedi'u cwblhau neu byddant yn mynd rhagddynt erbyn mis Mawrth 2018 (Oren) – Adroddwyd bod 43% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt erbyn 30 Tachwedd 2017. Mae hyn o fewn 10% o'r targed ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.
 - Cynyddu cyfleoedd ar gyfer mynediad lleol sy'n dod â chymunedau at ei gilydd (Oren) – Oren gan nad oes adnoddau ar hyn o bryd i benodi rheolwr cynllun Cyfle i drawsnewid y ffyrdd cyfredol o weithio a sefydlu'r cynllun o fis Mawrth 2018.
 - Dull a system fonitro newydd ar gyfer gorfodi erbyn mis Mawrth 2018 (Oren) – Mae dogfennau llywodraethu sylfaenol bellach ar waith ac mae asesiad tactegol newydd wedi cael ei gyflwyno, ac rydym yn datblygu asesiad strategol. Nid yw'r broses lywodraethu wedi cael ei datblygu hyd yn hyn.
 - Cyflawni gwasanaeth effeithiol a chydgyssylltiedig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau erbyn mis Mawrth 2018 (i'w gadarnhau).
8. Bydd y Prif Weithredwr dros dro yn darparu crynodeb llafar o'r hyn a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Bwrdd a bydd aelodau o'r tîm gweithredol ar gael i ateb cwestiynau.
9. Bydd yr Adroddiad Perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhelliad

10. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Graffu a chytuno ar yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer Cyfnod Dau, cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Risgiau allweddol

11. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad yn adlewyrchu'n gywir y cynnydd tuag at Amcanion y Cynllun Busnes/Corfforaethol, yna ni fydd y Bwrdd yn gallu cyflawni ei rôl i graffu ar ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o gyflawni'r gwaith hwn.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol i ddarparu'r Adroddiad Perfformiad.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

13. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Busnes 2017–18.

Mynegai o Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Perfformiad ar gyfer Cyfnod Dau 2017–18 (1 Ebrill 2017 – 30 Tachwedd 2017).